**<u>Cofnodion o Cyfarfod Arbennig Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Fawrth 9 Mehefin 2020 arlein trwy Zoom am 8 o'r gloch.</u>**
***<u>Minutes of an extra ordinary Llangeitho Community Council Meeting held on Tuesday, 9 June 2020, on-line through Zoom, at 8pm</u>***

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod arbennig yma i drafod un pwynt yn unig.

**<u>Presennol</u>*****<u>/Present</u>***
Cyng/*Cllr* Gwenfair Owen (Gadair/*Chair*), Daniel Thomas, Eirian Jones, Rhian Turner, Dafydd Morse, Gwilym Evans & Cyng/*Cllr* Rhodri Evans

**<u>Ymddiheuriadau</u>*****<u>/Apologies</u>*** **–** Cyng/*Cllr* Emyr Jones, Beryl Evans, Gerwyn Ebenezer, John Evans a Cyng/*Cllr* Paul Rooke

Soniwyd am y teulu o Ffrancwyr oedd wedi symud mewn i'r ardal o Loegr. Symudodd y teulu fewn yn sydyn iawn i Castle House. Roedd nifer o'r gymuned yn pryderi yn fawr oherwydd y Covid-19 a'r hawl i deuluoedd symud fewn i Gymru. Roedd presenoldeb yr heddlu wedi bod yn y pentref ar nifer o weithiau. Soniwyd hefyd bod perchennog y ty wedi teithio i fyny o Gaerdydd i gwrdd a'r teulu yn y pentref ac i roi'r allwedd iddynt gael symud fewn. Derbyniwyd neges gan yr heddlu i gadarnhau nad oedd unrhyw rheol wedi'u dorri gan perchennog y ty gan fod hyn yn waith iddo a bod y teulu wedi symud cyn bod y cyfyngiadau symud wedi dod i le.

Teimlwyd fod y gymuned wedi bod yn gweithio'n galed iawn i osgoi'r feirws yn y gymuned ac mi fyddai hi'n drychunebus pe bai ymwelwyr i'r ardal yn dod a'r feirws fewn i'r pentref.

Cytunwyd bod Cyng Daniel Thomas a Cyng Dafydd Morse yn drafftio llythyr allan i anfon i Ben Lake AS a Elin Jones AC fel dyletswydd i'r gymuned, llythyr i'w gylchredeg i'r Cynghorwyr cyn ei hanfon ymlaen iddynt.

Gofynnir i'r Cynghorydd Sir a oedd hawl i bobl ddodi arwyddion dim mynediad i'r llwybrau cyhoeddus ond nid oedd ganddynt yr hawl i wneud hyn ond byddai arwyddion ymgynhorol ar gael i arddangos yn ôl yr angen.

Cynnigir pleidlais o ddiolch i Michael Tordoff am gyfraniad i'r Gymuned.

Cytunwyd i gwrdd arlein trwy Zoom ar 6ed o Gorffennaf 2020 am 8 o'r gloch.

Terfynnir y cyfarfod am 9.20 o'r gloch